



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6

(Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

[Cyf: 20151030ASAt5(8) – 1]

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	3
	Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg	4
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol	5
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	16
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg	17
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	18
8	Y camau nesaf	28
	Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	29

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015¹ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y safonau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Mae pob cyfeiriad at safonau yn yr adroddiad safonau hwn yn cyfeirio at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau uchod.

Wrth gyflwyno'r rheoliadau, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Dyma ddeddfwriaeth hanesyddol a fydd yn rhoi sylfaen gadarn i'r iaith yn y sefydliadau hynny y bydd gofyn iddynt gydymffurfio â safonau. Bydd yn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd pob dydd, boed hynny wrth dderbyn gwasanaethau neu fel gweithwyr yn y sefydliadau dan sylw.²

Bu'r rheoliadau a gymeradwywyd ar 24 Mawrth 2015 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

² <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/welshlangstandards/?lang=cy>

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 5 Mai 2015 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp canlynol o bersonau:

- Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6.

Y person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '**Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6**' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- a ddylai'r personau fod yn agored i gydymffurfio â safonau;
- os yw'r personau'n dod o fewn Atodlen 6, dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn gymwysadwy i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp;
- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 26 Mai 2015. Daeth i ben ar 18 Awst 2015.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg.

3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a weir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'u gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd³ dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

³ Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig.

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 199 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymïadau cyfredol eu cynllun iaith Gymraeg.

Darperir yn yr adran hon wybodaeth am yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y person perthnasol, sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau eu cynllun iaith Gymraeg cyfredol yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y person perthnasol dan sylw yn ymrwmo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nad yw hynny wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynllun iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau y maent yn eu gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 86% o'r safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, a hynny oherwydd eu bod eisoes yn cydymffurfio â nifer ohonynt. Nodwyd, fodd bynnag, nad ydynt yn nodi ar eu gohebiaeth na chyhoeddiadau eu bod yn croesawu cyfathrebiadau yn Gymraeg, a hynny oherwydd eu bod yn gohebu'n ddwyieithog ac yn gweld hynny fel dangosydd o'r croeso.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff Safonau ynghylch galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 67% o'r safonau ynghylch galwadau ffôn at gorff a chan gorff.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud dwy o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, sef safonau 9 ac 21. Mynegwyd bod eu trefniadau cyfredol ar gyfer ateb y ffôn yn cydymffurfio â'r safonau mewn perthynas â galwadau ffôn ar y cyfan. Serch hynny, mynegwyd pryder ynghylch y ddwy safon yma oherwydd na allent warantu fod siaradwr Cymraeg wastad ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo'r galwr.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw ond nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn meddu ar nifer digonol o staff â sgiliau iaith Gymraeg i allu gwarantu cynnal cyfarfodydd o'r fath heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Er hynny, nodwyd eu bod yn cynnig caffael y gwasanaeth hwnnw wrth drefnu cyfarfod ag unigolyn neu sefydliad maent yn ymwybodol eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur oherwydd nad ydynt yn cynnig gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd fel y cyfryw (hynny yw, darparwyr tai cymdeithasol yw eu defnyddwyr gwasanaeth) ac oherwydd na allent warantu cynnal cyfarfodydd o'r fath heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**
Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 80% o'r safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt, a hynny oherwydd eu bod eisoes yn cydymffurfio â hwy.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff
Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff [35-36]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Er hynny, rhoddwyd ymateb i weddill cwestiynau'r adran o'r holiadur gan gyfeirio at eu trefniadau gogyfer y Gymraeg wrth gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru mai pur anaml y cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus ond eu bod yn sicrhau fod yr holl ddeunyddiau ynddynt yn ddwyieithog, bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael a bod staff Gymraeg yno os yn bosib. Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru y byddent yn defnyddio'r Gymraeg wrth hyrwyddo unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus. O'r herwydd, nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safon hon ac o'r herwydd yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur ei gwneud yn benodol gymwys

iddynt.

**Gweithgaredd 7: Corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn ac o'r herwydd yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur eu gwneud yn benodol gymwys iddynt.

**Gweithgaredd 8: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru fod nifer o'r gofynion ynghlwm wrth y safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ganddynt gan eu bod eisoes yn cyhoeddi dogfennau newydd yn ddwyieithog, boed hynny mewn un ddogfen neu mewn fersiynau ar wahân. Er iddynt nodi eu bod yn cynhyrchu rhai adroddiadau arbenigol yn Saesneg yn unig a chyda crynodeb dwyieithog, roeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

**Gweithgaredd 9: Corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn anelu at gynhyrchu pob ffurflen yn ddwyieithog, boed hynny mewn un ddogfen neu'n fersiynau ar wahân. Er hynny, roeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru fod gwefan pob aelod o'r Grŵp eisoes yn ddwyieithog, er bod rhai agweddau ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ac roeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

Gweithgaredd 11: Defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol Safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol [58-59]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol.

Er nodi eu bod yn ceisio cyhoeddi negeseuon yn Gymraeg ar yr un pryd â chyhoeddi'r rhai Saesneg ar eu cyfrifon swyddogol, nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad yw pob aelod o staff sy'n gwneud y cyhoeddiadau yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, ac felly, na fyddai modd iddynt warantu cydymffurfiaeth â safon 58 bob amser. Serch hynny, nodwyd y byddent yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw negeseuon Cymraeg a dderbyniwyd, a hynny yn unol â safon 59.

Gweithgaredd 12: Peiriannau hunanwasanaeth Safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth [60]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth.

Gweithgaredd 13: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff [61-63]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 68% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru fod eu holl arwyddion eisoes yn ddwyieithog a'u bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

Gweithgaredd 14: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [64-68]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

hynny am nad ydynt yn derbyn aelodau o'r cyhoedd i'w swyddfeydd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Gweithgaredd 15: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol

Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [69-70]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 50% o'r safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.

Gweithgaredd 16: Corff yn dyfarnu grantiau

Safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau [71-75]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 83% o'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau.

Gweithgaredd 17: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract

Safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [76-80]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 83% o'r safonau ynghylch corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwahodd rhai tendrau i gael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydi hynny'n arfer cyfredol drwyddi draw. Roeddynt o'r farn y byddai modd iddynt ddelio â thendr pe byddai'n cael ei gyflwyno'n Gymraeg ond nad oedd trefnu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cyfweliad dilynol yn flaenoriaeth iddynt ar hyn o bryd oherwydd y costau ynghlwm wrth hynny.

Gweithgaredd 18: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [81-82]

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod eisoes yn codi ymwybyddiaeth o rai o'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ganddynt. Gan ystyried hynny, roeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys

iddynt.

**Gweithgaredd 19: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff [83]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i'r safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff.

Pwysleisiodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn darparu fersiwn ddwyieithog o'u holl ddeunydd corfforaethol, gan gynnwys eu logo a'u papur pennawd. Gyda hynny, roeddynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

**Gweithgaredd 20: Cyrsiau a gynigir gan gorff
Safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff [84-86]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw a hynny am nad ydynt yn darparu cyrsiau addysgol sy'n agored i'r cyhoedd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i bob un o'r safonau ynghylch cyrsiau a gynigir gan gorff.

**Gweithgaredd 21: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [87]**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi
gwasanaethau [155-160]**

Pwysleisiodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn sefydliad bach sy'n canolbwyntio ar eu haelodau a'u bod yn credu mewn hybu defnydd o'r Gymraeg ac yn annog eu haelodau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â hwy. Fodd bynnag, nid oeddynt yn ystyried bod y safonau hyn yn rhesymol a chymesur, gan nodi bod lefel y gydymffurfiaeth ynghlwm wrth eu gweithredu yn anghymesur i faint a natur y sefydliad. Mynegwyd y pryderon hynny gan gyfeirio at yr angen i gynhyrchu adroddiadau yn unol â safonau 157 – 159 yn benodol.

Safonau llunio polisi

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru fod trwch eu gwaith yn ymwneud ag ymateb i ddatblygiad polisi (megis gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol) sy'n effeithio eu haelodau ac nad ydynt yn llunio nifer fawr o bolisiau fel y cyfryw. Serch hynny,

cadarnhawyd bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth wrth lunio polisi ond nad ydynt yn ymgynghori ar unrhyw benderfyniadau polisi nac ychwaith yn meddu ar bolisi dyroddi grantiau.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt gan nad ydynt yn llunio polisïau sy'n effeithio ar y cyhoedd yn eu tyb hwy.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [Dylid cyfeirio at safonau 161-166]

Nid oedd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

Safonau gweithredu [98-144]

Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [98-111]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 7% o'r safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Wrth ystyried safon 98, cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. Er hynny, nodwyd nad oedd y polisi hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y fewnwyd, ond yn hytrach, ar wefannau'r Grŵp.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oedd yr holl ddogfennau a nodir yn safonau 99-111 yn cael eu darparu yn Gymraeg ar hyn o bryd. Eglurwyd mai'r rheswm dros hynny oedd y diffyg galw gan staff am fersiynau Gymraeg o'r deunyddiau dan sylw. Er hynny, aed ymlaen i gadarnhau nad oeddynt yn rhoi'r cynnig i gyflogeion ynghylch a fyddent yn dymuno derbyn y dogfennau mewnol dan sylw yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff [112-115]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelodau o staff corff.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oeddynt yn caniatáu i aelodau staff wneud cwynion yn Gymraeg nac ychwaith yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu hi..

Yn yr un modd, nodwyd nad oedd yn arfer cyfredol cynnal cyfarfodydd ynghylch cwynion yn Gymraeg na darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ynddynt. Nodwyd mai'r rheswm dros hynny oedd oherwydd nad oedd staff wedi gofyn i'r sefydliad am y ddarpariaeth honno yn y gorffennol.

Yn ychwanegol at hynny, nodwyd nad oedd y sefydliad yn rhoi gwybod yn Gymraeg i aelod o staff beth yw ei benderfyniad yn dilyn cwyn.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [116-119]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm wrth safonau 116–119, nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oeddynt yn caniatáu i aelodau o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy broses ddisgyblu fewnol.

Pan fo'r Grŵp yn trefnu cyfarfod ynghylch achos disgyblu yn erbyn aelod o staff, nodwyd nad yw'n gofyn i staff a fyddai'n well ganddynt gynnal y cyfarfod yn Gymraeg, nac yn gofyn i aelod staff a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Gyda hynny, nodwyd nad yw'r sefydliad yn cynnal cyfarfodydd disgyblu mewnol drwy'r Gymraeg nac yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ynddynt ar hyn o bryd.

Ymhellach, nodwyd nad yw Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn hysbysu aelod o staff yn Gymraeg o'i benderfyniad yn dilyn achos disgyblu yn ei erbyn.

Pwysleisiwyd nad yw Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynnal unrhyw weithdrefnau mewnol yn ddwyieithog. Nodwyd nad oedd rhoi gweithdrefnau ar waith i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i staff yn flaenoriaeth iddynt ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [120-126]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 14% o'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru ei fod yn arfer cyfredol iddynt ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ynghyd â darparu rhyngwynebau Cymraeg o feddalwedd i gyflogeion a gweithwyr.

Nodwyd bod Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn gweithredu system fewnwyd, ond nad oedd y tudalennau, y rhyngwyneb na'r dewislenni ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd. Mynegwyd nad oedd cyfieithu'r holl ddogfennaeth a thrafodion mewnol ar y fewnwyd i'r Gymraeg yn flaenoriaeth iddynt, gan y byddai gwneud hynny yn peri goblygiadau adnoddau a chost sylweddol yn ogystal ag achosi arafwch ym mhrosesau mewnol y sefydliad yn eu tyb hwy.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [127-135]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 44% o'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion ar hyn o bryd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm wrth safon 128-129, nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oedd yn arfer cyfredol iddynt ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd dan sylw.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

Gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth safon 130-131, nodwyd ei fod yn arfer cyfredol i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru ddarparu cyfleoedd i staff gael gwersi Gymraeg sylfaenol. Yn ogystal, cadarnhawyd eu bod yn galluogi staff i gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. Er hynny, cadarnhawyd nad ydynt yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr ar hyn o bryd.

Nododd y Grŵp nad ydynt ar hyn o bryd yn darparu cyrsiau hyfforddi i staff ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, nac ychwaith hyfforddiant er mwyn iddynt feithrin dealltwriaeth o'r gofynion sydd ar y sefydliad i weithredu ei gynllun iaith Gymraeg, na'r modd y gellid defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Cadarnhawyd nad ydynt yn darparu geiriad na logo ar gyfer negeseuon e-bost ei gyflogeion a/neu ei weithwyr er mwyn eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Gymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. Er hynny, nodwyd bod manylion cyswllt staff mewn negeseuon e-bost yn Gymraeg.

Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio [136-140]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 75% o'r safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn cynnal asesiad o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â phob swydd newydd neu swydd wag.

Mewn perthynas â safon 137A, eglurwyd bod ffurflenni cais am swyddi, swydd-ddisgrifiadau yn ogystal ag unrhyw ddeunyddiau perthnasol eraill, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Er hynny, nodwyd nad oedd yn arfer cyfredol iddynt ddatgan i'r cyhoedd y caniateir i geisiadau am swyddi gael eu cyflwyno yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Er nad oedd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 138 ar hyn o bryd, nodwyd y byddai, pe derbynnir cais am swydd yn Gymraeg, yn hysbysu'r ymgeisydd o'i benderfyniad am y cais yn Gymraeg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [141-143]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 67% o'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, a bod y testun Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [144]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oedd cyhoeddiadau drwy gyfrwng offer sain

yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad ar hyn o bryd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [167-172]

Nid oedd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddynt: Roedd hynny oherwydd eu bod o'r farn nad oedd ganddynt yr adnoddau i'w gweithredu.

Safonau hybu [145-146]

Nid oedd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn dymuno cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

Safonau cadw cofnodion [147-154]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd yr ymrwymïadau'n cyfateb, boed yn rhannol neu'n llawn, i 75% o'r safonau ynghylch cadw cofnodion gan gorff.

Eglurodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru y byddai'n rhaid iddynt ddatblygu gweithdrefn bwrpasol i ddelio â chwynion am gydymffurfiaeth y safonau gan nad oes ganddynt un mewn grym ar hyn o bryd. At hynny, cadarnhawyd bod y wybodaeth ynghlwm wrth safonau 151 – 154 eisoes yn cael ei chadw gan eu hadran adnoddau dynol.

Fodd bynnag, nid oedd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt. Dylid nodi eu bod wedi datgan mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion, y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r safonau i gyd heblaw am safonau 150 a 152.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [175-176]

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Ni chasglwyd tystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru, a hynny oherwydd mai person sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ydynt.

6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod pawb yn deall gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; y Ddeddfwriaeth a ysgogodd ddyfodiad y safonau hyn.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau arnynt yng nghylch 2, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Ategwyd hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. pan fo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i berson gydymffurfio â safon o'i gymharu â pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes.

Roedd rhai aelodau o'r Panel yn ystyried y dylid gweithredu'r safonau mewn modd sydd yn adlewyrchu patrwm iaith y gwahanol ardaloedd. Cyfeiriwyd yn benodol at gyrff Llywodraeth y DU yn y cyswllt hwn. Pwysleisiwyd unwaith eto y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

Wrth ystyried y gweithgareddau a geir o dan y safonau cyflenwi gwasanaethau, cyfeiriwyd yn benodol at gyrsiau addysg a gynigir i'r cyhoedd gan nodi eu bod o'r farn y dylid asesu'r angen, gan ymchwilio i'r bylchau sydd o safbwynt cynnwys, cyn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r gofyniad.

7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol a'r Panel Cyngori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynllun iaith y person perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y Ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person yn gwneud y gweithgareddau hynny a'r graddau y mae hynny'n digwydd.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod person yn gwneud y gweithgaredd⁴, p'un a yw hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwrdd gweithgaredd.

Ategwyd hynny gan ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau a chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chylch 2 o'i hymchwiliadau safonau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 ac sy'n nodi'r canlynol:

Os bydd o leiaf un sefydliad o fewn sector wedi nodi ei fod yn ymgymryd â gweithgaredd, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliad y dylai'r safonau drafft sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys i'r holl sefydliadau o fewn y sector hwnnw. Mae Gweinidogion Cymru'n cefnogi'r dull hwn gan ei fod yn dilyn cynsail a sefydlwyd yn y gyfres gyntaf o Reoliadau, a olygodd fod yr un safonau'n gymwys i sefydliadau o fewn yr un sector.⁵

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

⁴ Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁵ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/response-to-welsh-language-standards-investigation/?lang=cy&ghq>

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai bod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Eglurwyd uchod, yn adran 2 o'r adroddiad hwn, mai pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- a ddylai'r personau fod yn agored i gydymffurfio â safonau;
- os yw'r personau'n dod o fewn Atodlen 6, dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn gymwysadwy i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp;
- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, ac o gymryd amcanion y Mesur fel y'u hamlinellwyd uchod i ystyriaeth, casgliad Comisiynydd y Gymraeg yw y dylai'r person sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 y Mesur a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn – sef Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru – fod yn agored i gydymffurfio â safonau.

Barn y Comisiynydd, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, a chyda'r bwriad o sicrhau cysondeb â phersonau eraill a adnabuwyd fel rhai sydd yn perthyn i'r un sector â'r personau perthnasol, sef y darparwyr tai cymdeithasol, yw y dylai'r safonau canlynol fod yn gymwysadwy i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau;
- Safonau llunio polisi;
- Safonau gweithredu;
- Safonau cadw cofnodion.

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i bersonau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylai Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol.

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau sefydliad (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohono) a pherfformiad (i ba raddau mae'n cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y sefydliad wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, â'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw, yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad ynghyd â'r graddau y gall sefydliad gydymffurfio â safon ar gyfnod amser penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er y derbyniwyd rhai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth, neu bryderon ynglŷn â rhai gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cyflenwi gwasanaethau, roedd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru ar y cyfan yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt.

Casgliad 1: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- corff yn dyfarnu contractau
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff

Er i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nodi nad ydynt yn trefnu nac yn ariannu digwyddiadau cyhoeddus, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn yn cyfeirio'n benodol at ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus a'u bod yn gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

○ digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff.

Eglurodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn derbyn aelodau o'r cyhoedd i'w swyddfeydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn wedi'u cyfyngu i ymwelwyr sy'n aelodau o'r cyhoedd yn unig. Gan ystyried hynny, ac o ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y person perthnasol fel rhan o'r ymchwiliad safonau, mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru.

Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

○ derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn cyhoeddi nac yn arddangos hysbysiadau swyddogol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi bod Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn diffinio hysbysiad swyddogol fel:

"...unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff, ond nid yw'n cynnwys hysbysiadau swyddogol a ragnodir mewn deddfiad."

Gan ystyried y diffiniad uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru. Rhoddir sylw dyledus i achosion unigol wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

○ corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.

Cadarnhaodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn dyfarnu grantiau. Fodd bynnag, roedd ymrwymadau rhannol neu lawn sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn

dyfarnu ar geisiadau am grant yng nghynllun iaith Gymraeg y person perthnasol hwn.

Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru, i'r graddau bod y pŵer a'r swyddogaeth ganddynt i wneud hynny:

○ **corff yn dyfarnu grantiau.**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn darparu cyrsiau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn cyfeirio at gyrsiau addysg a'u dehongli fel:

“...unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd...”

Gan ystyried y diffiniad uchod, gallasai ystod eang o weithgarwch y person fod yn berthnasol. Gan ystyried hynny, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru.

Casgliad 6: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

○ **cyrsiau a ddarperir gan gorff.**

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oeddynt yn cyhoeddi negeseuon drwy gyfrwng system annerch gyhoeddus ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y gall y person ymgymryd â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau eraill y mae'n debygol y byddai systemau annerch cyhoeddus yn gysylltiedig â hwy: er enghraifft, cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, neu ddigwyddiadau cyhoeddus. O'r herwydd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru. Dylid nodi y rhoddir hyblygrwydd o dan adran 44 y Mesur i Gomisiynydd y Gymraeg nodi'r amgylchiadau y bydd disgwyl i berson gydymffurfio â safon.

Casgliad 7: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

○ **systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.**

Safonau llunio polisi

Cred y Comisiynydd y dylai sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru ystyried yr effaith y gall eu polisiâu gael ar y Gymraeg, a sut y gellir creu polisiâu sydd yn ymgynghraedd at y nod

o sicrhau un neu ragor o'r canlyniadau a ganlyn fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (a ph'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael –

- (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
- (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yr ail o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif –

- (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu
- (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Y trydydd o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniadau fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol –

- (a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
- (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.⁶

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwn yw bod disgwyl eisoes i sefydliadau asesu goblygiadau ieithyddol polisïau a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (cymeradwywyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisïau, strategaethau a mentrau newydd, a'u gweithredu.

Mynegodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt gan nad ydynt yn llunio polisïau sy'n effeithio ar y cyhoedd yn eu tyb hwy ac nad ydynt yn cyhoeddi llawer o bolisïau yn uniongyrchol. Mae'r Comisiynydd yn pwysleisio bod penderfyniad polisi yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch –

- a) cynnwys deddfwriaeth;
- b) arfer pwerau statudol;
- c) cynnwys datganiadau polisi;
- ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- d) strwythurau mewnol.⁷

I'r perwyl hwn, mae'n allweddol ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ymgymryd ag unrhyw un o'r penderfyniadau polisi hyn.

⁶ Adran 29 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁷ Rhan 2, Atodlen 2, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Cydnabyddir bod materion wedi'u hamlygu ynghylch gallu'r person perthnasol i gydymffurfio â holl ofynion y safonau llunio polisi. Yn yr un modd, nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad ydynt yn meddu ar bolisi dyroddi grantiau. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 8: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru.

Safonau gweithredu

Noda adran 30 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw: safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Fel y nodwyd mewn datganiad ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru wrth bennu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 mewn perthynas â sefydliadau yng Nghylch 1, bydd y safonau yn chwarae rhan allweddol wrth sefydlu fframwaith sy'n sicrhau y gall pobl fod yn hyderus yn y gwasanaethau a gânt yn Gymraeg, a'u bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.⁸ Cred y Comisiynydd fod yr egwyddor honno yr un mor wir ar gyfer cyflogaion sy'n ymgymryd â'u gweithgareddau perthnasol ag y mae ar gyfer aelodau o'r cyhoedd.

Mynegir yn natganiad polisi 'laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen' y bydd y safonau yn 'gatalydd pwysig ar gyfer gwella sut mae sefydliadau yn ystyried datblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu.'⁹ Byddai peidio â gwneud y safonau gweithredu yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn cyfyngu ar hawliau eu cyflogaion, yn llesteirio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle hyn, ac yn mynd yn groes i brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ynghyd â'r nodau a amlinellir yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg: 'laith fyw:iaith byw (Strategaeth y Gymraeg 2012-2017)'.¹⁰

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau lle nad oes trefniadau ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu'r rheini nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol iddynt ymgymryd at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lliniaru eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol ac yn gymesur.

⁸ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/welshlangstandards/?lang=cy>

⁹ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/moving-forward/?lang=cy>

¹⁰ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?lang=cy>

Er hyn, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru eu gwneud o dan eu cynllun iaith Gymraeg. Wrth ddadansoddi eu hymrwymadau cyfredol, amlygir eu bod eisoes yn ymrwymo, boed yn rhannol yn llawn, i ddarparu'n unol â phump o'r wyth gweithgaredd perthnasol a ddaw o dan y safonau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrin â materion ieithyddol yn y meysydd recriwtio ac apwyntio ynghyd â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu. Cesglir felly ei fod yn rhesymol iddynt orfod cydymffurfio â gofynion sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol.

Os yw Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn gwneud unrhyw weithgaredd perthnasol a geir yn y safonau gweithredu, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig ar hyn o bryd, cesglir y dylai'r safonau sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau hynny fod yn benodol gymwys iddynt.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod yn rhesymol a chymesur i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru alluogi eu gweithwyr wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Casgliad 9: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru:

- safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd
- safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff

Nododd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru nad oedd yn gwneud cyhoeddiadau a negeseuon sain yn y gweithle ar hyn o bryd. Ategwyd hynny wrth ddadansoddi ymrwymadau eu cynllun iaith Gymraeg cyfredol. Nodwyd eisoes y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio yn ddull mwy priodol na mynd yn ôl at reoliadau.

Gan ystyried yr uchod, ynghyd â natur y gweithgaredd perthnasol dan sylw, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol y gall Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru ymgymryd ag ef yn y dyfodol. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y graddau y maent yn gwneud cyhoeddiadau a negeseuon sain yn y gweithle, ynghyd â'r graddau y dylai'r Grŵp eu gwneud yn Gymraeg wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 10: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safon gweithredu mewn perthynas â'r mater isod fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn weithgaredd y gall y Grŵp ymgymryd ag ef ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru gadw cofnod yn dweud sut y maent yn glynu wrth safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, gyda'r person perthnasol yn nodi bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, ac yn weithredol i raddau helaeth, yn arfer cyfredol.

Casgliad 11: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyaeth 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'¹¹ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

Mae dogfen bolisi Llywodraeth Cymru 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio'¹² yn egluro mai rôl arolygwyr yw 'gwirio'n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol'. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy'n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw'r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy'n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch.

¹¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

¹² <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(8): Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6 (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru)

Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrff arolygu oruchwyllo popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunan asesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Casgliad 12: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol fod yn benodol gymwys i Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru.

8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- y person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.¹³

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.¹⁴

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

Cadarnhaodd Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Hydref 2015 na fyddai'r trydydd cylch o reoliadau yn gallu cael eu datblygu cyn diwedd cyfnod y Cynulliad hwn, ac felly y byddai hynny'n fater i'r Cynulliad nesaf.

Nid oes amserlen felly ar gyfer cyflwyno rheoliadau mewn perthynas â'r person(au) hynny a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

¹³ Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

¹⁴ <http://gov.wales/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, ynghyd ag aelodau o'r Panel Cyngori.

Person perthnasol

- Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies
- Nick Speed